**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 24 HYDREF 2019**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: P.A.Rees (Cadeirydd) a/ac A.J.Taylor

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Millis, A.Thomas, I.Guy, C.Davies a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd P A Rees yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P A Rees | Parthed: Gweithdrefn Apeliadau Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, gan fod ei wyres yn defnyddio cludiant ysgol. |

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2019.

4. **GWEITHDREFN APELIADAU AR GYFER CYMORTH CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL**

Esboniodd y swyddog y bu gwall teipio ynghylch niferoedd yng nghyfansoddiad Grŵp Cludiant y cyngor (fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd). Byddai'r niferoedd yn cael eu diwygio.

Roedd Aelodau'r Cabinet yn hyderus y byddai'r weithdrefn apeliadau newydd yn ddefnyddiol i deuluoedd

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo rhoi gweithdrefn apeliadau newydd ar waith ar gyfer Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd, yn amodol ar gynnwys y niferoedd cywir sy'n ymwneud â Grŵp Cludiant y Cyngor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Gwella'r Weithdrefn Apeliadau Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

5. **RHAGLENNI CYFLOGADWYEDD YN Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AM BOBL IFANC NAD YDYNT MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NEU HYFFORDDIANT**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

7. **STRATEGAETH ARWEINYDDIAETH MEWN YSGOLION**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CWRICWLWM I GYMRU 2022**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r cyflwyniad.

9. **AMSERAU AGOR Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD 2019. LLYFRGELLOEDD, THEATRAU, CANOLFANNAU CYMUNEDOL, PARC GWLEDIG MARGAM, CANOLFANNAU HAMDDEN A PHYLLAU NOFIO**

Nodwyd y dilynwyd oriau agor traddodiadol ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd unwaith eto eleni, ac eithrio Parc Margam a fyddai'n elwa o oriau agor estynedig dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r oriau agor a chau dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd ar gyfer canolfannau hamdden, pyllau nofio, Parc Gwledig Margam, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, theatrau a chanolfannau cymunedol, fel y nodwyd yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad a gylchredwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod cyfleusterau'r cyngor ar gael i'r cyhoedd pan fydd galw iddynt fod ar agor a galluogi rheolwyr i wneud trefniadau priodol gyda staff rheng flaen o ran eu gwyliau blynyddol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **<u>CYNNIG I BRYDLESU A RHOI CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH Y TŶ TYRBIN YM MHARC GWLEDIG MARGAM I GYFEILLION PARC GWLEDIG MARGAM</u>**

Teimlai aelodau y byddai prydles newydd yn ehangu'r berthynas dda rhwng y cyngor a Chyfeillion Parc Margam - fe'i hystyriwyd yn gam ymlaen cadarnhaol.

**<u>Penderfyniad:</u>**

Rhoi caniatâd mewn egwyddor ar gyfer prydles atgyweirio mewnol 25 mlynedd i Gyfeillion Parc Margam a Chytundeb Lefel Gwasanaeth y Tŷ Tyrbin sydd newydd ei adnewyddu ym Mharc Gwledig Margam ar delerau i'w cytuno â'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad:</u>**

Bydd y brydles a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth arfaethedig yn hwyluso'r defnydd arfaethedig a Chanolfan Dderbyn i Ymwelwyr.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2018-19</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**